Mai 2026

# Cylchlythyr

## Digwyddiadau i ddod

01.06.26 - Diwrnod cyntaf yn ôl i'r ysgol
01.06.26 - Lluniau dosbarthiadau
10.06.26 - Mabolgampau Ysgol Isaf y.b, Ysgol Uchaf yp
19.06.26 - Hyfforddiant Mewn Swydd i staff
20 a 21.06.26 - Tafwyl (Mae'r ysgol yn perfformio ar y 21.06.26)
24.06.26 - Ffair Haf yr ysgol
26.06.26 - Gwasanaeth Dosbarth Derbyn a Meithrin
08.07.26 - Sioe Gadael Blwyddyn 6 - Ysgol Bro Edern 6yh
15.07.26 - Picnic Gadael Blwyddyn 6
17.07.26 - Diwrnod olaf i ddisgyblion

## Staffio

Yn dilyn cyfnod o weithio i Sir Caerdydd gyda'r tim SLCN bydd Ms James yn gadael yr ysgol ar ddiwedd yr haf er mwyn symud ymlaen yn ei gyrfa.
Mae Miss Sara Williams hefyd wedi bod yn llwyddiannus ac yn symud ymlaen i swydd fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Sant Barug. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r ddwy am eu holl waith dros y blynyddoedd ac rydym yn dymuno pob lwc iddynt yn eu gyrfaeoedd newydd.
Hefyd rydym am groesawu Miss Evans i deulu Pen-y-Groes sydd wedi cychwyn fel cynorthwyydd yn yr ysgol. Byddwn hefyd yn croesawu Miss Indeg Williams yn ôl i dim PYG yn mis Medi ar ôl cyfnod mamolaeth. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda'r ddwy.

## Llwyddiannau/Digwyddiadau



Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 amser gwych yn Storey Arms eleni. Fe wnaethant oresgyn ofnau i gymryd rhan mewn pob gweithgaredd





## Ffrindiau



**Mae'r haf ar y gorwel ac felly bydd cyfle unwaith eto i ymuno fel ysgol ar gyfer ein Ffair Haf blynyddol.**
**Mwy o fanylion i ddilyn**

**Dyddiad: 24ain o Fehefin 2026**

**Instagram yr ysgol**
**ysgol_penygroes**

Mai 2026

# Cylchlythyr

Cafodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 sesiwn gyda’r awdures Luned Aaron a llyfrgellydd lleol i ddathlu llyfrau a darllen



Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cyd-weithio gydag ysgolion eraill Caerdydd i greu fideo sydd yn esbonio pwysigrwydd presenodeb a phrydlondeb da. Buont yn defnyddio eu medrau rhifedd i weithio allan data presenoldeb ysgolion Sir Caerdydd.



Hyfryd oedd cael Mrs Giles yn ôl yn yr ysgol i gynnal sesiwn am ddarllen gyda rieni yr ysgol.



Llongyfarchiadau mawr i Thea am gystadlu mewn cystadleuaeth gwyddbwyll ar y penwythnos. Rydym yn gobeithio dysgu nifer o symudiadau gwyddbwyll da dros yr haf.





Hoffwn ddymuno Hanner Tymor Hapus i Deulu Pen-y-Groes Edrychwn ymlaen at weld pawb ar 01.06.26

## Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol hyd yn hyn yw 93.2%

Ein targed yw 95%

Mae presenoldeb cyson yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cyrraedd eu llawn potensial

**Instagram yr Ysgol**
**ysgol_penygroes**